

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Dogfen ymgynghori ar ein hamcanion arfaethedig ynghylch cydraddoldeb 2018-2022



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Dogfen ymgynghori: Amcanion Cydraddoldeb Drafft ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2018-2022

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau a sylwadau ynghylch amcanion cydraddoldeb drafft ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod 2018-2022. Unwaith y bydd yr amcanion ar gael ar eu ffurf derfynol, cânt eu cynnwys mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd a gaiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/ neu iaith wahanol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith y byddwch chi wedi'i defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Sut i ymateb

Dylech ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb www.snapsurveys.com erbyn 9 Chwefror 2018.

Mae croeso i chi lenwi'r ffurflen yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Fel arall, anfonwch eich ymateb yn ysgrifenedig drwy'r post neu drwy ebost gan ddefnyddio'r manylion isod.

Y Tîm Cynllunio ac Adrodd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ebost post@archwilio.cymru

Rhif ffôn 02920 320 500

Cyfrinachedd a diogelu data

Gallai gwybodaeth a gaiff ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu'i datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth ynghylch mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam yr ydych o'r farn bod y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y bydd modd i'r wybodaeth barhau'n gyfrinachol ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gaiff ei gynhyrchu gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn ymwadiad sy'n rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff data personol ei brosesu'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os bydd data o'r fath yn dod yn rhan o gais am wybodaeth gan berson arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr amgylchiadau penodol hynny. Er nad oes modd rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hynny'n golygu y bydd gwybodaeth am uwch-swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn cael ei datgelu, ond y bydd enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Rhagair

Cafodd ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd](#) cyntaf ei gyhoeddi gennym ym mis Mai 2014, gan ddisodli [Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Archwilydd Cyffredinol](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012, a gan amlinellu'r prif bethau yr oedd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu eu gwneud yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2018 er mwyn helpu i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da.

Ers hynny, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu rhaglen waith i helpu i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle er mwyn i ni fodloni yn llawn ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb a chyflawni ar sail y deg amcan cydraddoldeb yr oeddem wedi'u pennu i ni ein hunain. Adroddwyd ynghylch y cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein Cynllun bob blwyddyn yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb blynyddol; cyhoeddwyd ein [Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2016-17](#) ym mis Medi 2017.

Ar ôl adolygu ac ystyried y cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf, rydym bellach wedi datblygu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb a ddylai, yn ein barn ni, fod yn sail i'n gwaith yn ystod y cyfnod o 2018 i 2022.

Cyn penderfynu'n derfynol ar ein hamcanion newydd a'u cyhoeddi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2018-2022, rydym am gael barn ein hamryw randdeiliaid ynghylch ein hamcanion arfaethedig a'r camau posibl y gallem eu cymryd er mwyn eu cyflawni.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch yr amcanion hyn, dylech ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb www.snapsurveys.com neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru erbyn 9 Chwefror 2018. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu rhoi o'ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon, ac edrychwn ymlaen at glywed eich safbwyntiau.



Huw Vaughan Thomas
Auditor General for
Wales



Lindsay Foyster
Equality Champion and
Non-Executive Board
Member, on behalf of the
Wales Audit Office

Cyflwyniad

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y cronfeydd ariannol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio yn eu cylch yn flynyddol. Caiff elfennau sylweddol o'r cyllid hwn eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r GIG ac i lywodraeth leol yng Nghymru.

Mae archwilio cyrff y sector cyhoeddus yn cynnwys rhoi barn ynghylch y cyfrifon, ac mae hefyd yn ymdrin â materion megis:

- **rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy);**
- **priodoldeb (sut y caiff busnes cyhoeddus ei gyflawni); a**
- **gwerth am arian.**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff proffesiynol cymwys ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol o gwmnïau cyfrifyddiaeth yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 270 o staff.

Bu i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a elwir yn aml yn Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Dan y ddyletswydd hon rhaid i ni, yn yr un modd ag awdurdodau cyhoeddus eraill, roi sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni ein swyddogaethau:


- a dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a gaiff ei wahardd dan y Ddeddf;
- b hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno;
- c meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi pennu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a datblygu amcanion cydraddoldeb penodol (gan gynnwys ystyried amcanion i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau rhwng cyflogau sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig) er mwyn helpu i fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, ac egluro'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny;
- b cynnwys pobl sy'n cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn y broses o bennu amcanion cydraddoldeb ac yn ehangach yn y dyletswyddau;
- c gwneud trefniadau i gasglu gwybodaeth am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, ac ystyried gwybodaeth berthnasol o'r fath wrth bennu amcanion cydraddoldeb;
- ch. monitro cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb;
- d gwneud trefniadau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol a'r rheoliadau ymhlith gweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru;
- dd cyhoeddi adroddiadau asesu sy'n egluro effaith debygol polisïau ac arferion newydd, os yw'r effaith yn sylweddol;
- e cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n egluro unrhyw bolisi i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhwng cyflogau dynion a menywod;
- f cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n egluro, ymysg pethau eraill, ein hamcanion cydraddoldeb, camau i gyflawni'r amcanion a'r amser disgwylidig ar gyfer eu cyflawni, a threfniadau ar gyfer bodloni dyletswyddau penodol eraill (ch, d, dd ac e uchod);
- ff cyhoeddi'n flynyddol gwybodaeth berthnasol am gyflogaeth – e.e. ystadegau am recriwtio a hyfforddiant yn ôl y nodweddion gwarchoddedig);
- g cyhoeddi'n flynyddol adroddiadau cynnydd sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, y cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb penodol;
- ng ystyried y Ddyletswydd Gyffredinol mewn prosesau caffael.

Ein nod a'n hamcanion strategol

Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth.



Mae ein tri amcan cyntaf yn canolbwyntio ar yr hyn yr ydym ni'n eu hystyried yn dri diben archwilio – rhoi sicrwydd, rhoi cipolwg ar y ffordd y mae adnoddau'n cael eu defnyddio a hyrwyddo gwelliannau.

Mae ein pedwerydd amcan yn sail i'r tri amcan cyntaf; er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o'r radd flaenaf, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad atebol ac uchel ei barch a gaiff ei redeg yn dda, sy'n sicrhau gwerth am arian ac sy'n darparu amgylchedd i weithio ynddo sy'n ysgogol ac sy'n rhoi boddhad.

Ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2018-2022

Er mwyn sefydlu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb, mae ein Grŵp Llywio Cydraddoldeb a'n Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb¹ wedi mynd ati'n ddiweddar i gynnal adolygiad manwl o effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed tuag at fodloni'r amcanion a nodwyd yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd](#). Cafodd crynodeb o effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed ei gyhoeddi yn ein [Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2016-17](#). Wrth ddatblygu ein hamcanion diwygiedig, rhoddwyd ystyriaeth benodol hefyd i'r newidiadau sydd ar ddod i'n hamgylchedd gweithredu, fel y disgrifir yn fanwl yn ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18](#).

Dyma ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2022:

Amcanion yr Archwilydd Cyffredinol

1. Byddwn yn ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig wrth ystyried y canlynol:
 - a pa raglenni o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian y byddwn yn ymgymryd â nhw; a
 - b y dulliau a gaiff eu defnyddio mewn archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.
2. Byddwn yn ymgymryd ag o leiaf un archwiliad neu astudiaeth gwerth am arian sydd â phrif ffocws sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn ystod y cyfnod o bedair blynedd y mae'r Cynllun yn ymdrin ag ef.
3. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei God Ymarfer Archwilio sut y bydd gwaith archwilio'n cael ei gynnal er mwyn cefnogi'r broses o fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

¹ Caiff rolau'r Grŵp Llywio a'r Grŵp Buddiannau eu disgrifio yn ein [Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2016-17](#)

Amcanion Swyddfa Archwilio Cymru

4. Byddwn yn datblygu Strategaeth Bobl sy'n ceisio gwella'r modd yr ydym yn cefnogi amrywiaeth, yn hybu cynhwysiant ac yn bodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, gan dynnu ar ein gwybodaeth am y gweithlu yng nghyswllt y nodweddion gwarchoddedig.
5. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethau strwythurol rhwng cyflogau dynion a menywod, ynghyd â gwahaniaethau direswm eraill rhwng cyflogau, sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig a nodweddion cysylltiedig eraill.
6. Wrth gaffael gwasanaethau o ffynhonnell allanol, byddwn yn gwneud y canlynol:
 - a cynnwys gofynion sy'n berthnasol i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn ein meini prawf ar gyfer dyfarnu tendrau; ac yn
 - b cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol wrth nodi pa safonau perfformiad a gaiff eu cynnwys yn y cytundeb contract.
7. Byddwn yn meithrin cydberthnasau da rhwng staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r sawl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny, drwy benodi 'hyrwyddwyr' cydraddoldeb ymysg staff uwch a staff eraill, a chefnogi rhwydweithiau staff perthnasol.

Amcanion ar y cyd

8. Byddwn yn darparu gwybodaeth am ein gwaith, gan gynnwys drwy ein gwefan, mewn modd sy'n hygyrch ac sy'n osgoi rhoi pobl sydd â nam arnynt dan anfantais sylweddol.
9. Byddwn yn gwella maint ac ansawdd gwybodaeth megis adborth allanol yr ydym yn ei gasglu ynghylch sut y mae ein gwaith yn cyfrannu at fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

Cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn ymgynghori 1

I ba raddau yr ydych yn cytuno â'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd o 2018 tan 2020?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu sylwadau ategol.



Anghytuno'n
gryf



Anghytuno



Nid yn
cytuno nac



Cytuno



Cytuno'n
gryf

Cwestiwn ymgynghori 2

A ydych chi o'r farn y dylem gynnwys unrhyw amcanion cydraddoldeb ychwanegol ar gyfer y cyfnod hwnnw?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu sylwadau ategol.

Cwestiwn ymgynghori 3

A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ynghylch y camau y dylem eu cymryd i fodloni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig?

Diolch am roi o'ch amser i ymateb; byddwn yn ystyried eich barn wrth ddrafftio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf, a gaiff ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru